

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Bil Drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru)	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg <i>(cwbllhawyd gan Uned y Gymraeg): 15/04/06</i>
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Adrian Green
Dyddiad:	Mehefin 2015
Arweinydd polisi:	Tracey Breheny
Manylion cyswllt:	PHbill@wales.gsi.gov.uk

Math o Raglen/Prosiect

☐ Polisi	☐ Prosiect neu raglen
☒ Deddfwriaeth	☐ Ymchwil, gwerthuso
☐ Grant	☐ Gwasanaethau
☐ Newid busnes	☐ Contractau, tendrau
☐ Seilwaith	
☐ Adeiladu, Cyfalaf	
☐ TGCh	
☐ Arall (Nodwch isod)	

Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?
 Os yw'n llai na £25,000, nid oes angen cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar y Gymraeg bob amser (gweler y canllawiau).

O dan £25,000	£25,000 - £49,000	£50,000 - £249,000	£250,000 - £1 filiwn	Dros £1 filiwn
☐	☐	☐	☐	☐

O'r uchod, rhwch fanylion unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg.

Mae costau'r cynnig hwn i awdurdodau lleol ac eraill wedi eu cynnwys yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil drafft. Fodd bynnag, disgwylir na fydd ond ychydig iawn o gostau gan nad oes fawr ddim newid uniongyrchol i arferion busnes.

Rhagwelir na fydd ond ychydig iawn o gostau yn uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg. Mae'n debyg y bydd unrhyw gostau ychwanegol, megis arwyddion dwyieithog, hysbysebu a chanllawiau, yn cael eu cynnwys o fewn y costau gweithredu cyffredinol ac ni fydd yn hawdd eu nodi ar wahân.

Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 3 blynedd	Hyd at 4 blynedd	Hyd at 5 mlynedd	Ddim yn hysbys
☐	☐	☐	☐	☐	☐
Rhagwelir y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno yn y Cynulliad nesaf.					
Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:					
14 Gorffennaf 2015 – 11 Rhagfyr 2015: Ymgynghoriad dwyieithog ar Fil drafft lechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) gan gynnwys fersiwn ar wahân ar gyfer plant a phobl ifanc. Cyhoeddir yr ymgynghoriad ar y Bil drafft ynghyd â fersiynau dwyieithog o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mawrth 2016: Cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft.					
CAM 1: CYNLLUNIO					
Beth yw nodau ac amcanion y polisi?					
Beth yw'r canlyniadau a ddymunir / beth a gaiff ei ystyried yn 'llwyddiant'?					
Roedd Papur Gwyn lechyd y Cyhoedd - "<i>Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig</i>", a gyhoeddwyd ar 2 Ebrill 2014, wedi tynnu ynghyd nifer o gynigion deddfwriaethol er mwyn mynd i'r afael â phryderon penodol am iechyd y cyhoedd gan ddefnyddio deddfwriaeth. Cafwyd llawer o ddiddordeb yn y Papur Gwyn, a oedd yn cynnwys cynnig i gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol, drwy gydol cyfnod yr ymgynghoriad, a hynny o Gymru a thu hwnt. Derbyniwyd cyfanswm o 173 o ymatebion i'r Papur Gwyn, a chyhoeddwyd adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2014. Roedd 145 o'r ymatebion yn ymwneud â'r isafbris uned, a'r mwyafrif helaeth ohonynt o blaid cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Mae'r cynigion yn gyson â'r dull ataliol o ofal iechyd darbodus, sef gweithredu pan fo potensial i ostwng neu osgoi'r costau cymdeithasol ac ariannol sy'n gysylltiedig â salwch y gellir ei osgoi. Mae Bil drafft lechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) yn cynnig ei gwneud yn drosedd i werthu neu gyflenwi alcohol am bris llai na'r isafbris uned. Bydd yr isafbris uned yn cael ei bennu gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Bydd yr isafbris uned yn gymwys i'r alcohol a werthir yng Nghymru, gan gynnwys mangreoedd sy'n cynnig danfon nwyddau ar-lein a gwerthu 'Clicio a Chasglu' pan fo'r alcohol yn dod o fangre gymwys yng Nghymru - er enghraifft - pan fo'r drwydded ar gyfer y warws wedi'i dal yng Nghymru.					
Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?					
a					
Beth fydd yr effeithiau os na fydd y polisi'n cael ei weithredu?					
Eglurir y dewisiadau polisi yn fanwl yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Rhan 2) o'r Memorandwm Esboniadol sydd hefyd yn darparu tystiolaeth gadarn o fuddion y					

ddeddfwriaeth newydd arfaethedig hon o ran targedu yfwr ifanc, niweidiol a pheryglus er mwyn diogelu unigolion, teuluoedd a chymunedau.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg – iaith fyw: iaith byw?

Mae Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad o effeithiau deddfwriaeth sylfaenol arfaethedig ar yr iaith Gymraeg.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth “*Iaith Fyw; Iaith Byw*” ar gyfer y Gymraeg ar gyfer y cyfnod 2012-17, sydd â'r nod o gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn defnyddio'r iaith. Mewn perthynas ag iaith yn benodol, mae strategaeth “*Mwy na geiriau*” yn anelu i gryfhau gwasanaethau ieuchyd a gofal cymdeithasol Cymraeg y rheng flaen. Er nad oes ond ychydig o gysylltiadau clir â strategaeth 'iaith fyw: iaith fyw', mae'r cynnig yn cefnogi prif amcanion y strategaeth yn anuniongyrchol.

Mae'r materion yr ymdrinnir â hwy yn y Bil drafft yn ymwneud yn bennaf â mater ieuchyd cyhoeddus ar wahân, sef cyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol, yn hytrach na darpariaeth a hygyrchedd cyffredinol gwasanaethau ieuchyd. O'r herwydd, ni ddisgwylir y bydd y ddeddfwriaeth hon yn cael effaith sylweddol ar yr iaith Gymraeg, er y bydd angen i drefniadau prisio a chynhyrchu arwyddion, canllawiau a dogfennaeth ddwyieithog arall gael eu haddasu fel rhan o waith arferol busnesau manwerthu masnachol. Trafodwyd y materion hyn â'r diwydiant manwerthu a chredir y gellir cynnwys y costau hyn o fewn y newidiadau prisio a gweinyddu arferol a wynebier fel arfer o ganlyniad i arferion busnes dwyieithog y sector manwerthu. Bydd hyn yn cefnogi nodau “*Iaith Fyw; Iaith Byw*” drwy gryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned a chyfrannu tuag at fuddion ieuchyd cymunedol ar yr un pryd.

Pa effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar y Gymraeg yr ydych chi wedi eu nodi yn ystod y cam cynllunio cychwynnol?

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau iaith Gymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg?

Yr effeithiau presennol a nodwyd yw:

- Yr angen i sicrhau bod hyfforddiant a chanllawiau perthnasol yn cael eu darparu'n ddwyieithog lle bo angen;
- Yr angen am ddeunyddiau cyhoeddusrwydd dwyieithog.

Bydd yr holl gyfathrebu â'r cyhoedd a manwerthwyr ynghylch Bil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) yn ddwyieithog yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a Safonau'r Gymraeg sydd ar y gorwel.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae grwpiau buddiant yr iaith Gymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Mae'r prif rhanddeiliaid yn cynnwys awdurdodau lleol, busnesau preifat, sefydliadau yn y gymuned, Plant yng Nghymru, fforymau ieuenctid ac aelodau o'r cyhoedd.

Gan nad yw'r cynnig hwn yn ymwneud â gwasanaeth cyhoeddus newydd na newid i

wasanaeth cyhoeddus, mae'n bosibl na fydd yn denu diddordeb penodol ac arbennig gan grwpiau buddiant yr iaith Gymraeg.
Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch adroddiad llawn at ddibenion cadw cofnod.
Amherthnasol – mae'r effeithiau a nodwyd wedi'u hamlinellu o fewn y templed asesu hwn.
Pa gamau/gwaith ychwanegol a nodwyd yn y cam cynllunio cychwynnol? e.e. gofynion o ran data, yr angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg eu hiaith, nodi rhanddeiliaid neu restr ymgynghori, yr angen i gysylltu ag Uned y Gymraeg i gael cyngor)?
Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad cychwynnol ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd a'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw yn ddwyieithog. Bydd angen cysylltu'n barhaus drwy gyfrwng y Gymraeg â rhanddeiliaid allweddol yn ystod hynt y ddeddfwriaeth hon, ac mae'r ymgynghoriad ar y Bil wedi ei gyhoeddi'n ddwyieithog er mwyn sicrhau bod anghenion a gofynion iaith yn cael eu hystyried yn briodol.
CAM 2: NODI AC ASESU EFFEITHIAU
<u>Crynodeb o'r Asesiad Effaith</u> Crynowch yr asesiad o'r effaith manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a roddwyd.
Effeithiau cadarnhaol:
Bydd cyflwyno gwybodaeth yn yr ieithoedd a ffafir yn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn cael cyfle i ddeall goblygiadau'r polisi a'r ymgynghoriad ar y Bil drafft yn llawn. Gall gweithio gyda rhanddeiliaid fod o gymorth wrth wneud addasiadau a diwygiadau er mwyn helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg pan fo hynny'n gwneud synnwyr ymarferol a phosibl.
Effeithiau negyddol:
Mae'n bosibl bod gallu awdurdodau lleol i gynnig mwy o ddarpariaeth iaith Gymraeg yn cystadlu â blaenoriaethau gwasanaeth eraill. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod y broses o ddatblygu'r ddeddfwriaeth gyda'r bwriad o leihau'r effaith pan fo modd.
Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. gwella statws, cynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd, y Gymraeg yn y gwaith?
Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i egluro'r polisi yn Gymraeg os canfyddir bod angen - bydd hyn yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a gall roi'r hyder iddynt egluro'r polisi newydd yn yr iaith y maent yn ei ffafrio.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd gan gynnwys proffil demograffig wrth ystyried yr effeithiau:	
Dylid asesu'r ddarpariaeth iaith Gymraeg a ddefnyddir gan awdurdodau lleol er mwyn ystyried a oes angen addasiadau/gofynion ar lefel leol neu lefel genedlaethol.	
Beth yw'r effaith gyffredinol debygol a ragwelir ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu, ar sail yr asesiad effaith / asesiad risg?	Cadarnhaol: ☐ Negyddol: ☐ Niwtral: ☒ Anhysbys: ☐
Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad Effaith	1. Dim newid sylweddol ☒ 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau ☐ 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru ☐ 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno ☐
Os atebwyd 2, 3 neu 4 uchod – yna atebwch y canlynol:	
Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau ar gyfer y Gymraeg? Manylion camau lliniaru / camau gweithredu / opsiynau amgen er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:	
Os ydych chi'n ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau yr ydych chi'n dymuno eu gofyn i randdeiliaid ynglŷn â'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?	
Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig hwn ym Mhapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd rhwng 2 Ebrill a 24 Mehefin 2014. Roedd dogfennau ymgynghori, gan gynnwys fersiwn hawdd ei deall a fersiwn i bobl ifanc ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, ac roedd copïau dwyieithog wedi eu hargraffu ar gael. Cynhaliwyd digwyddiadau dwyieithog i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid hefyd fel rhan o'r broses ymgynghori. Yn ogystal â chwestiynau manwl ar bob cynnig polisi, roedd y Papur Gwyn yn cynnwys cwestiwn yn holi am farn benodol ar sut y gallai'r cynigion effeithio ar y Gymraeg. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. Soniodd nifer o ymatebwyr yn gyffredinol bod angen i ddatblygiadau deddfwriaethol fod yn ystyriol o bolisiau a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru, megis strategaeth '<i>Mwy na geiriau</i>' ar gyfer cryfhau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Cymraeg y rheng flaen. Nid oedd yr ymateb i'r ymgynghoriad gan Gomisiynydd y Gymraeg yn cynnwys sylwadau manwl ar y cynnig, ond pwysleisiodd bwysigrwydd asesu anghenion yn ofalus ac ymgysylltu'n ystyrlon â dinasyddion lleol yng nghyd-destun datblygu asedau iechyd cymunedol. Wrth ymgynghori ac ymgysylltu ag amrywiol grwpiau ac unigolion, ac wrth weithio gydag unigolion sy'n chwilio am driniaeth ar gyfer camddefnyddio alcohol, byddwn yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â strategaeth '<i>Mwy na Geiriau</i>'.	

CAM 3: AR ÔL YR YMGYNGHORIAD A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau yr ydych chi wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?

Dim ar hyn o bryd, fodd bynnag bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid ar bob cam o ddatblygiad y Bil drafft.

Sut y byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus wrth roi'r polisi ar waith?

Bydd yr Asesiad Effaith hwn yn cael ei gadw dan adolygiad, o leiaf yn ystod bob cam allweddol o'r broses o ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon ac yn ystod ei gweithrediad.

Amlinellwch sut y byddwch yn parhau i gasglu gwybodaeth am effeithiau wrth wneud gwaith monitro a gwerthuso yn y dyfodol.

Drwy drafod ac ystyried gofynion wrth iddynt godi a'u hamlinellu yn yr asesiad hwn yn ôl yr angen.

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwaith gwerthuso, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

4. Datganiad

Arweinydd polisi:

****Dileer fel y bo'n briodol:***

***Mae'r polisi hwn / ~~Nid yw'r polisi hwn~~ yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu gweithredu.**

Enw:

Tracey Breheny

Adran:

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad (au):

Adolygwyd ddiwethaf ym mis Mehefin 2015

Llofnod:

Tracey Breheny

Dyddiadau Adolygu Arfaethedig:

I'w gadw dan adolygiad drwy gydol y broses o ddatblygu'r ddeddfwriaeth, yn ystod ac ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben (Gorffennaf - Rhagfyr 2015), ac yn ystod hynt ddilynol unrhyw Fil drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL

Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect ar y cam hwn o'r datblygiad. Drwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnod: Chris Tudor-Smith

Dyddiad: Mai 2015

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Llofnod:
(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad Adolygu

Llofnod:
(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad Adolygu

Llofnod:
(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad Adolygu